# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mehefin 2017

Amser: 14.30 - 15.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4099

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 166KB) Gweld fel HTML

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Nathan Gill AC.
Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad â chydweithwyr, teulu a chyfeillion Sam Gould, a fu farw yr wythnos diwethaf.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)111 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Ymateb y Llywodraeth: SL(5)098 - Canllawiau Statudol - Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio

### 3.2 Ymateb y Llywodraeth: SL(5)104 - Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor yr ymatebion.

### 3.3 Ymgynghoriad ar God Erlyn Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ymgynghoriad ar y Cod.

### 3.4 Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Bil y Diddymu Mawr

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 3.5 Gohebiaeth mewn perthynas â'r Bil Diddymu’r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 3.6 Gohebiaeth mewn perthynas â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgiadol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gohebiaeth am bapurau i'w nodi

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd arni.

## 6 Trafod offerynnau statudol: y goblygiadau sy'n deillio o adael yr UE

Trafododd y Pwyllgor y goblygiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE mewn perthynas â'r ystyriaeth o offerynnau statudol.

## 7 Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru

Trafododd y Pwyllgor bapur i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad.

## 8 Adroddiad drafft: Y Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

## 9 Llais Cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a'r sefydliadau datganoledig: Pecyn ymgynghori